

ADRODDIAD ADOLYGU BLYNYDDOL CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

2022-23

Enw'r Awdurdod Lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Awdur:	Sharon Rowlands
Cymeradwywr:	Joanne Watts
Dyddiad:	28.7.23 reviewed 15.8.23

PRIF LWYDDIANNAU / UCHAFBWYNTIAU

- Mae'r Awdurdod wedi cynnal ymgynghoriad ar ADY yng nghyswllt gweithredu mwy o Ganolfannau Adnoddau mewn addysg brif ffrwd. Unwaith y cytunir ar hynny, bwriedir gweithredu Canolfan Adnoddau gyda 10-15 lle yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg i agor ym mis Medi 2025.
- Gosodwyd y contract yng nghyswllt adeilad newydd ysgol egin Ysgol Gymraeg Tredegar gyda gofal plant i agor ym mlwyddyn academaidd 2024-25. Sicrhawyd lleoliad dros dro ar gyfer mis Medi 2023 yn Nhŷ Bedwellte, Tredegar dan drefniadau llywodraethiant Ysgol Gymraeg Bro Helyg.
- Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar gyfer darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yng Nglynebwy a disgwylir y bydd yn agor ym mis Mai 2024.
- Cafodd gwaith Band B yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg ei gwblhau ac ymwelodd y Gweinidog ar 5 Mehefin 2023 i weld yr ysgol a'i darpariaeth trochi.
- Mae trafodaethau rhanbarthol wedi dechrau yng nghyswllt dull cydweithio i sicrhau ysgol uwchradd.

GOROLWG CYNLLUN CYFAN

Hunan-asesiad Gwyrdd – cynnydd sylweddol mewn sawl maes.

BLAEN OLWG / CERRIG MILLTIR

Ar ôl adolygu'r cynnydd presennol a wnaed drwy ein ffurflen monitro cafodd y llif ei ddynodi fel cerrig milltir blaen olwg:

- Parhau i gynyddu'r galw yn y nifer o leoedd ysgol gynradd.
- Cynnal astudiaeth ddichonolrwydd yn unol â'r potensial am gynyddu capasiti o fewn y sector cynradd rhwng 2027 a 2028, gan fapio opsiynau twf pellach i leoliadau posibl
- Cynyddu trosiant o ofal plant cyfrwng Cymraeg i leoliadau addysg cyfrwng Cymraeg
- Parhau'r momentwm yng nghyswllt trafodaethau rhanbarthol am ysgol uwchradd Gymraeg
- Agor y ddarpariaeth ysgol newydd yn Nhredegar ynghyd â gofal plant ar yr un lleoliad
- Gweithredu'r ddarpariaeth ADY yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg
- Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer profiadau dysgu anffurfiol drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd mewn partneriaeth
- Cynyddu darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg neu ysgolion sy'n edrych ar symud i gategori arall, a
- Y Gwasanaeth Ieuenctid mewn cysylltiad â'r Urdd i sefydlu dau glwb ieuenctid Cymraeg arall.

Deilliant 1

Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

- Cafodd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn diwethaf ei gwblhau yn 2022. Yn anffodus, roedd ymateb isel yng nghyswllt yr arolwg rhieni (yn yr un modd â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru) felly mae'n anodd defnyddio hynny fel penderfynydd cryf ar gyfer y galw am ddarpariaeth Gymraeg.

Mae'r asesiad yn dweud fod diffyg clir o ddarpariaeth Gymraeg ym Mlaenau Gwent, heb unrhyw ddarpariaeth Gymraeg o gwbl mewn dwy ardal cynllunio cymunedol, Sirhywi ac Ebwy Fawr. Fodd bynnag, cafodd yr ardaloedd hynny eu dynodi eisoes yn yr asesiad blaenorol ac adroddiadau dilynol ac mae cynlluniau adeiladu cyfalaf yn eu lle i ddod ag opsiynau gofal plant gofal dydd llawn i'r ddwy ardal. Dengys yr arolwg rhieni a gynhaliwyd fod y rhwystrau wrth gael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg yn cynnwys pellter ac argaeledd ac adroddwyd peth galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol gan 26 rhiant/gofalwr oedd naill ai eisiau neu a fyddai'n ystyried gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Gall mwy o ddarpariaeth leol, gan gynnig mwy o oriau agor, annog y rhieni hynny i fanteisio ar yr opsiynau cyfrwng Cymraeg pan maent eu hangen. Nid oes unrhyw warchodwyr plant yn gweithredu yn y Gymraeg ar hyn o bryd, er fod rhai yn cynnig gwasanaeth dwyieithog. Dim ond gwarchodwyr plant cyfrwng Saesneg sydd yn Sirhywi sy'n golygu llai o ddewis ar gyfer rhieni/gofalwyr yn yr ardal honno. Dim ond lleoedd ar gyfer plant dwy i bedair oed y mae darparwyr cyfrwng Cymraeg yng ngogledd a de Ebwy Fach yn eu cynnig ar hyn o bryd, a hynny am oriau cyfyngedig yn ystod y dydd. Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth ar ôl ysgol na darpariaeth gwyliau eu cynnig yn Gymraeg.

Mae Cylch Meithrin wedi cofrestru yn Sirhywi ond mae'r ddarpariaeth yn parhau heb staff ac mae ar gau ar hyn o bryd. Byddai'r Awdurdod Lleol yn croesawu i'r ddarpariaeth honno agor yn fuan i ddechrau cynyddu galw ar gyfer yr ysgol egin newydd. Cafodd sesiynau Cymraeg eu cynnwys yn y ddarpariaeth meithrinfa ddydd cyfrwng Saesneg yn Ebwy Fawr, gan ymestyn dewis yn yr ardal honno. Byddai croeso mawr i ymestyn y cynllun peilot hwn i feithrinfeydd dydd cyfrwng Saesneg eraill. Mae'r angen i ddatblygu gwasanaethau yn arbennig o ystyried yr ysgol egin Gymraeg newydd a adeiledir yn Nhredegar. Bydd yr opsiynau gofal dydd llawn newydd yn helpu i lanw rhai o'r bylchau a ddynodwyd, ond mae'r angen i ymchwilio recriwtio gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg, neu gynyddu sgiliau gwarchodwyr plant, yn arbennig yn ardal Sirhywi yn glir.

- Yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2023 a'r niferoedd ar y gofrestr, mae gwir nifer y disgyblion yn uwch na'r targed o 45 disgybl a ddynodwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10-mlynedd ar gyfer 2022/23.

2022-2023			
Targed		Gwir Nifer	
45	6%	49	9%

- Mae nifer y Cylchoedd Meithrin ym Mlaenau Gwent yn parhau yn 2. Mae 57 o blant yn mynychu'r safleoedd. Mae 29 o'r garfan o 57 plentyn (50.8%) yn trosglwyddo i addysg Gymraeg.
- Mae 11 darpariaeth Dechrau'n Deg ar hyn o bryd, 2 ohonynt yn rhai cyfrwng Cymraeg yn gyfwerth â 576 lle gyda 76 (13.2%) ohonynt yn rhai cyfrwng Cymraeg.

CRYNODEB DEILLIANT

- Cafodd 9 lleoliad eu dynodi dan y cynllun i ehangu Dechrau'n Deg, ac nid oes unrhyw leoedd cyfrwng Cymraeg wedi eu dynodi ar hyn o bryd. Bydd hyn yn newid pan gaiff y lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd yng Nglynebwy a Thredegar eu comisiynu fel rhai cyfrwng Cymraeg. Gall lleoedd Dechrau'n Deg gael eu cynnig ond mae hyn yn anhysbys ar hyn o bryd.
- Mae nifer y Cylchoedd Meithrin wedi gwella o'r data llinell sylfaen yng nghynllun 10-Mlynedd WESP (tudalen 12) 2019/10 o 45 plentyn wedi cofrestru, gyda 14 (31%) yn trosglwyddo i addysg Gymraeg. Mae data 2021/22 yn dangos cynnydd ym maint y garfan o 57 a mwy o blant 29 (50.8%) yn mynd i Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Mae hyn yn ddechrau da ar y daith i hyrwyddo gofal plant ac addysg Gymraeg.
- **Trefnodd y Fenter Iaith ŵyl fach Bwrlwm Blaenau Gwent ar 20 Mai 2023 i hyrwyddo'r ysgol newydd. Gwahoddwyd partneriaid tebyg lleol tebyg i Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin a RhAG i ddod draw a rhannu gwybodaeth ar stondinau a gweithgareddau.**
- Cafodd dulliau Sicrwydd Ansawdd mewnol newydd eu datblygu (We Play, Learn and Play at Home a Quality Matters) sy'n olynu'r Cynllun Graddio Amgylcheddol a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Mae'r dulliau hyn yn cefnogi ansawdd mewn lleoliadau o bob math. Mae cydweithwyr o'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy, y Rhaglen Trawsnewid Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr ac ymarferwyr gofal plant wedi gweithio gyda'r timau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae (EYCP) i gyfrannu at ddatblygu'r dull diweddaraf 'Quality Matters', a gaiff ei ymestyn yn ystod 2022. Mae gan y tîm EYCP Swyddog Gwella Ansawdd ac Arweinydd Tîm Strategaeth Gofal Plant ac mae eu gwaith gyda darparwyr i godi ansawdd wedi sicrhau canlyniadau gyda chynnydd mewn blynyddoedd diweddar mewn sgorau ansawdd. Mae'r swyddi yn ategu rhai yn Dechrau'n Deg sy'n gwneud gwaith tebyg ac mae perthynas waith agos rhwng y ddau dîm i sicrhau cysondeb cyngor, cyflwyno hyfforddiant ar y cyd a rhannu arfer da. Mae'r Swyddog Digonolrwydd Chwarae hefyd yn cefnogi'r broses drwy gynig cyngor arbenigol a hyfforddiant ar chwarae. Sefydlwyd grŵp Cymuned Ymarfer am y tair blynedd ddiwethaf lle gall swyddogion ar draws timau gydweithio, rhannu gwybodaeth a chynllunio hyfforddiant.

- Mae Polisi Cludiant Rhwng y Cartref ac Ysgol Ôl-16 Blaenau Gwent yn darparu cludiant i leoliadau addysg cyfrwng Cymraeg fel sy'n dilyn:
 - darperir cludiant lle mae plentyn yn byw fwy na 1.5 milltir o'u hysgol Gymraeg agosaf.
 - cludiant am ddim i ddisgyblion meithrin llawn-amser sy'n mynychu lleoliad Cymraeg; a
 - lleoedd ar gludiant presennol i Ysgol Gymraeg Gwynllyw ar gyfer disgyblion oed ysgol uwchradd
 - hefyd mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ôl-16 ar gludiant presennol i Ysgol Gymraeg Gwynllyw.
- Mae strwythur y Fforwm Addysg Gymraeg yn gweithio'n dda ac mae'r grŵp yn cwrdd bob tymor. Sefydlwyd is-grŵp Cyfathrebu sy'n cwrdd bob yn ail fis ac yn cynllunio marchnata, gwybodaeth tudalen gwefan a gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol. Eleni mae'r grŵp wedi cynllunio llyfrnodau, a anfonwyd i Blaenau Gwent i gyd. Roedd un ochr am drochi a manteision bod yn ddwyieithog, gan eu cyfeirio drwy god QR at y dudalen gwefan ac roedd yr ochr arall i gyd am yr adeilad ysgol newydd ar Chartist Way, Tredegar.

GWEITHREDU A MONITRO

Dangosir monitro blwyddyn gyntaf cynllun 10-mlynedd Cymraeg mewn Addysg (WESP) ar ffurflen monitro Blaenau Gwent. Caiff y data ei gasglu ddwywaith y flwyddyn.

Allan o'r 17 pwynt gweithredu a ddynodwyd yn y WESP mae cyfanswm o 15 lefel ar waith gyda 2 heb ddechrau. Nid oes unrhyw gamau gweithredu wedi eu cwblhau gan mai hon yw'r ffurflen fonitro gyntaf a gyflwynwyd dan y cynllun 10-mlynedd.

Yn ogystal â'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg sy'n cwrdd unwaith y tymor, cafodd gwahanol is-grwpiau eu sefydlu gydag arweinwyr allweddol yn grwpio deilliannau fel isod:

Deilliant 1 a 2	Deilliant 3 a 4	Deilliant 5	Deilliant 6
Mae Deilliant 7 yn nodwedd allweddol yn y 4 grŵp.			

Mae'r grwpiau hyn yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trafod cynnydd ar y deilliannau.

Mae gan Flaenau Gwent hefyd is-grŵp Cyfathrebu sy'n cwrdd bob yn ail fis, ac mae grŵp cynllunio lleoedd ysgol y Fforwm Addysg Gymraeg rhanbarthol hefyd yn cwrdd bob tymor. Ymhellach mae Blaenau Gwent hefyd wedi arwain ar grŵp trafod gydag awdurdodau cyfagos yng nghyswllt cynllunio darpariaeth uwchradd.

RISGIAU LEFEL DEILLIANT

1. Mae'r oedi wrth benodi contractor i adeiladu'r ysgol gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle yn Chartist Way Sirhywi, gyda darpariaeth gofal plant ar yr un safle, wedi arafu'r cynnydd ar Ddeilliant 1, gallai tywydd garw ym misoedd y gaeaf tra gwneir y gwaith daear hefyd effeithio ar amserlen darpariaeth a chostau. Fodd bynnag mae'r ysgol yn agor mewn lleoliad dros dro – Tŷ Bedwellte – ar gyfer disgyblion Meithrin a dosbarth Derbyn. Rhagwelir y caiff yr ysgol ei chwblhau ac

- y bydd yn barod i'w defnyddio yn nhymor yr hydref 2024/tymor gwanwyn 2025.
- 2. Dim digon o lleoedd gofal plant i gefnogi twf y model egin.
- 3. Recriwtio a chadw staff i gefnogi'r ddarpariaeth egin. Mae hon yn broblem genedlaethol.

SICRWYDD / GWEITHREDOEDD LLINIARU RISGIAU

- 1. Caiff yr oedi wrth adeiladu'r ysgol ei gyfarch drwy ddarparu lleoliad dros dro ar gyfer disgyblion Meithrin/dosbarth Derbyn yng nghwm Tredegar nes bydd yr ysgol egin wedi ei chwblhau.
- 2. Caiff creu lleoedd gofal plant ei drin drwy agor darpariaeth gofal plant ym Mai 2024 yng Nglynebwy a darpariaeth Tredegar yn nhymor yr hydref 2024/Gwanwyn 2025.
- 3. Bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau y caiff hyfforddiant, cefnogaeth a chyfleoedd sabothol digonol eu darparu i sicrhau datblygiad staff. Yn ychwanegol, mae hon yn broblem genedlaethol ac mae'r Awdurdod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyfarch hyn.

Deilliant 2

Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

- Yn seiliedig ar ddata CYBLD (Ionawr 2023) mae nifer derbyn y dosbarth Derbyn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn 44 allan o garfan o 743 disgybl yn 2022, mae nifer y lleoedd a gafodd eu llanw mewn ysgol Gymraeg yn fwy na 14. Gweler y tabl isod ar gyfer y nifer wirioneddol o gymharu â'r data targed. Nid yw Ysgol Gymraeg Bro Helyg wedi gwrthod unrhyw ddisgybl i'r dosbarth Derbyn, a chafodd y cynnydd ei gynnwys o fewn yr ysgol am eleni.

2022-2023			
Targed		Gwir Nifer	
30	4%	44	6%

- Mae'r data lleoedd gwag ar hyn o bryd yn -2% 220 ar y gofrestr ac eithrio meithrin o gymharu â chapasiti o 215 ar hyn o bryd.
- Bydd materion digonolrwydd ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Helyg am y 4 blynedd nesaf.
- Caiff hyn ei gyfarch gyda chyflwyno darpariaeth egin Ysgol Gymraeg Tredegar. Mae Blaenau Gwent hefyd ar y rhestr wrth gefn ar gyfer grant cyfalaf a fyddai'n golygu adeiladu estyniad i alluogi adleoli'r ddarpariaeth trochi ac ADY. Byddai hyn yn galluogi defnyddio gofod ystafell ddosbarth i gynyddu'r capasiti.
- Caiff hyn ei fonitro yn flynyddol yn unol â rhagamcanion disgyblion ac adolygiadau cyfleusterau.

- Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndir lleiafrif ethnig ar gofrestr Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Canran isel o bobl o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrif ethnig sydd yn y Fwrdeistref Sirol. Allan o garfan poblogaeth oedran ysgolion Blaenau Gwent o 9053 disgybl (yn cynnwys Meithrin), dim ond 323 disgybl sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, 3.4% o'r holl garfan.

CRYNODEB DEILLIANT

- Cafodd un prosiect ym Mlaenau Gwent ei gyllido drwy Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg, sef adeiladu ysgol gynradd 210 lle yn Chartist Way, Sirhywi, Tredegar, Bu oedi yn y gwaith gyda chynnydd mewn costau fel canlyniad i Covid a grymoedd y farchnad. Mae'r prosiect yn awr yn symud ymlaen ac ISG yw'r contractor a ffafrir. Mae Blaenau Gwent wedi cyhoeddi llythyr penodi. Bydd hyn yn galluogi ISG i fod ar y safle o fewn yr ychydig wythnosau nesaf i wneud gwaith drilio a growtio. Disgwylir adolygiad o'r amserlen adeiladu o amgylch penodi contractwr. Rhagwelir y bydd yn cymryd 12-14 mis i adeiladu'r ysgol a allai olygu y bydd yr ysgol yn barod i'w defnyddio yn Hydref 2024/Gwanwyn 2025.
- Ynghyd â'r Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg ar gyfer y datblygiad Cynradd, gallodd Blynnyddoedd Cynnar ddefnyddio grant cyllid cyfalaf Gofal Plant i sefydlu dau leoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg, un yng Nglynebwy (ar yr un lleoliad â safle Glyncoed – disgwylir cwblhau ym Mai 2024) ac un ar safle'r adeilad newydd ar gyfer y ddarpariaeth egin yn Chartist Way, Sirhywi, Tredegar.
- Mae'r Cyngor yn awr yn paratoi ar gyfer y Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Fel rhan o'r adolygiad hwn ac yn unol â chynllun 10-mllynedd WESP, mae'r Cyngor yn anelu i gynnal astudiaeth ddichonolrwydd i fapio opsiwn twf a lleoliadau posibl ac amserlen a chynnwys hyn yn y Rhaglen ynghyd â gweithio gydag awdurdodau cyfagos ar draws y rhanbarth i sefydlu darpariaeth ysgol uwchradd ar y cyd erbyn 2028-29.
- Bydd pob Cyngor yn ystyried sut y bydd twf addysg Gymraeg yn effeithio ar y stad ysgolion yn ehangach. Fel rhan o'r datblygiad ysgol egin, mae Blaenau Gwent eisoes wedi cynnal peth modelu ar yr effaith ar ysgolion cyfrwng Saesneg yn ardal Tredegar. Cydnabyddir y bydd y twf yn nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg yn cael effaith ar leoedd cyfrwng Saesneg ac ystyrir hyn fel rhan o gynigion ar gyfer y Rhaglen Dreigl wrth symud ymlaen.
- Mae'r Cyngor yn anelu i weithio'n fwy agos gyda EAS i ganfod lle mae ysgolion cyfrwng Saesneg y Fwrdeistref arni yng nghyswllt y tair lefel o gategori ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.
- Agorodd dosbarth trochi 'Dosbarth y Bont' ym Mro Helyg yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23 a chafodd dau ddisgybl fudd o'r ddarpariaeth. Mae disgybl Blwyddyn 5 wedi integreiddio'n llwyddiannus i'r dosbarth prif ffrwd a gall ddarllen a siarad Cymraeg yn rhugl. Bu disgybl blwyddyn 2 gyda ni am dair wythnos a bydd yn parhau yn Nosbarth y Bont ym mis Medi. Cynhyrchwyd dau fideo yn rhoi sylw i'r ddarpariaeth a byddant yn cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol o dymor yr Haf. Gobeithir y bydd hyn yn annog disgyblion eraill i drosglwyddo yn y flwyddyn academaidd nesaf.

- Ychydig o deuluoedd o gefndir lleiafrif ethnig sydd ym Mlaenau Gwent, fel y nodwyd yn Neilliant 1. Fodd bynnag, mae ymgysylltu drwy'r broses dderbyn ac fel rhan o'r digwyddiadau cyfathrebu i hyrwyddo'r darpariaethau Cymraeg.
- Mae Pennaeth Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn weithgar yn y Fforwm Addysg Gymraeg ac wrth hyrwyddo addysg Gymraeg a bu'n gefnogol tu hwnt yn natblygiad y ddarpariaeth egin.

GWEITHREDU A MONITRO

Cafodd monitro blwyddyn gyntaf cynllun 10 mlynedd WESP ei ddangos yn ffurflen fonitro Blaenau Gwent. Caiff y data ei gasglu ddwywaith y flwyddyn.

Cafodd 1 lefel ei gwblhau allan o'r 15 pwynt gweithredu a ddynodwyd yn y WESP, mae 10 yn mynd rhagdynt a 4 heb ddechrau. Gan mai hon yw'r ffurflen fonitro gyntaf a gyflwynwyd dan y cynllun 10-mlynedd newydd, dim ond 1 pwynt gweithredu a gwblhawyd.

Yn ogystal â'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg sy'n cwrdd unwaith y tymor, cafodd gwahanol is-grwpiau eu sefydlu gydag arweinwyr allweddol yn grwpio deilliannau ynghyd fel sy'n dilyn:

Deilliant 1 a 2	Deilliant 3 a 4	Deilliant 5	Deilliant 6
Mae Deilliant 7 yn nodwedd allweddol ym mhob un o'r 4 grŵp.			

Mae'r grwpiau hyn yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trafod cynnydd ar y deilliannau.

Mae gan Flaenau Gwent hefyd is-grŵp Cyfathrebu sy'n cwrdd bob yn ail fis, ac mae grŵp cynllunio lleoedd ysgol y Fforwm Addysg Gymraeg rhanbarthol hefyd yn cwrdd bob tymor. Ymhellach mae Blaenau Gwent hefyd wedi arwain ar grŵp trafod gydag awdurdodau cyfagos yng nghyswllt cynllunio darpariaeth uwchradd.

RISGIAU LEFEL DEILLIANT

1. Mae'r oedi wrth benodi contractor i adeiladu'r ysgol gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle yn Chartist Way Sirhywi, gyda darpariaeth gofal plant ar yr un safle, wedi arafu'r cynnydd ar Ddeilliant 1, gallai tywydd garw ym misoedd y gaeaf tra gwneir y gwaith daear hefyd effeithio ar amserlen darpariaeth a chostau. Fodd bynnag mae'r ysgol yn agor mewn lleoliad dros dro – Tŷ Bedwellte – ar gyfer disgyblion Meithrin a dosbarth Derbyn. Rhagwelir y caiff yr ysgol ei chwblhau ac y bydd yn barod i'w defnyddio yn nhymer yr hydref 2024/tymor gwanwyn 2025.
2. Dim digon o leoedd gofal plant i gefnogi twf y model egin.
3. Recriwtio a chadw staff i gefnogi'r ddarpariaeth egin. Mae hon yn broblem genedlaethol.

SICRWYDD / GWEITHREDOEDD LLINIARU RISGIAU

1. Caiff yr oedi wrth adeiladu'r ysgol ei liniaru drwy ddarparu lleoliad dros dro ar gyfer disgyblion Meithrin/dosbarth Derbyn yng nghwm Tredegar nes bydd yr ysgol egin wedi ei chwblhau.
2. Caiff creu lleoedd gofal plant ei drin drwy agor darpariaeth gofal plant ym mis Mai 2024 yng Nglynebwy a darpariaeth Tredegar yn nhymor yr hydref 2024/Gwanwyn 2025.
3. Bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau y caiff hyfforddiant, cefnogaeth a chyfleoedd sabothol digonol eu darparu i sicrhau datblygiad staff. Yn ychwanegol, mae hon yn broblem genedlaethol ac mae'r Awdurdod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyfarch hyn.

Deilliant 3

Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

Data CYBLD ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 6 o Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn trosglwyddo i Blwyddyn 7 cyfrwng Cymraeg.

2022-2023			
Targed		Gwir Nifer	
38	100%	34	89%

CRYNODEB DEILLIANT

- O safbwynt EAS gall staff dreulio amser yn cynyddu sgiliau mewn addysg Gymraeg o ysgolion cyfrwng Saesneg yn y fwrdeistref sirol (mae gennym enghraifft o secondiad o Gymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri i ysgol Gymraeg yn 22-23). Fodd bynnag, dim ond o fudd tymor byr yw hyn yn nhermau capasiti ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Datblygir hyder a chymhwyster ieithyddol ar gyfer staff i ddiwallu anghenion y sector cyfrwng Cymraeg yn ogystal â'r sector cyfrwng Saesneg.
- Ein nod yw cynyddu sgiliau'r holl staff i sicrhau safonau ar draws pob ysgol fel bod ysgolion cyfrwng Saesneg yn cyrraedd y 15% o gwricwlwm cyfrwng Cymraeg sydd mewn canllawiau ar hyn o bryd.
- Mae gan Ysgol Gymraeg Bro Helyg ac Ysgol Gymraeg Gwynllyw drefniadau a gweithgareddau trosglwyddo da i gefnogi dysgwyr Blaenau Gwent a'u teuluoedd, tebyg i ymweliadau staff i Ysgol Gymraeg Bro Helyg ac wythnos breswyl ar ddechrau Blwyddyn 7.
- Mae gwaith trosglwyddo yn cael ei wneud gan ysgolion a'r Gwasanaeth Ieuenctid ar hyn o bryd. Mae dysgwyr Blaenau Gwent wedi sicrhau lleoedd uwchradd yn Ysgol Gwynllyw tan 2029.
- Mae Pennaeth interim Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn aelod o'r Fforwm Addysg Cymraeg ac yn rhagweithiol wrth gefnogi dysgwyr o Flaenau Gwent.

GWEITHREDU A MONITRO

Dangosir monitro blwyddyn gyntaf cynllun 10-mlynedd WESP ar ffurflen monitro Blaenau Gwent. Caiff y data ei gasglu ddwywaith y flwyddyn.

Cwblhawyd dau o'r 17 pwynt gweithredu a ddynodwyd yn y WESP, gyda gwaith yn mynd rhagddo ar 11 a 4 heb ddechrau.

Yn ogystal â'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg sy'n cwrdd unwaith y tymor, cafodd gwahanol is-grwpiau eu sefydlu gydag arweinwyr allweddol yn grwpio deilliannau fel isod:

Deiliant 1 a 2	Deiliant 3 a 4	Deiliant 5	Deiliant 6
Mae Deiliant 7 yn nodwedd allweddol ym mhob un o'r 4 grŵp			

Mae gan Flaenau Gwent hefyd is-grŵp Cyfathrebu sy'n cwrdd bob yn ail fis, ac mae grŵp cynllunio lleoedd ysgol y Fforwm Addysg Gymraeg rhanbarthol hefyd yn cwrdd bob tymor. Ymhellach mae Blaenau Gwent hefyd wedi arwain ar grŵp trafod gydag awdurdodau cyfagos yng nghyswllt cynllunio darpariaeth uwchradd

RISGIAU LEFEL DEILLIANT

1. Cynllunio ar gyfer lleoedd uwchradd ar ôl 2029 pan na fydd lleoedd ar gael yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw ar gyfer disgyblion Blaenau Gwent.
2. Amrywiad mewn grwpiau blwyddyn a'r risg bod symudiad diweddar pedwar o ddysgwyr i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn dod yn dueddiad.

SICRWYDD / GWEITHREDOEDD LLINIARU RISGIAU

1. Cynllunio rhanbarthol ar gyfer lleoedd uwchradd.
2. Deall pam nad yw rhieni yn dewis addysg uwchradd Gymraeg a gweithio gyda'r ysgol i gynllunio arolwg ar gyfer rhieni.

Deiliant 4

Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

- Yn seiliedig ar ddata CYBLD Ionawr 2023 caiff nifer y dysgwyr o Flaenau Gwent sy'n mynychu darpariaeth uwchradd yn Nhorfaen ei ddangos yn y tabl isod. Mae 19.57% (147/751) o ddisgyblion Ysgol Gwynllyw yn dod o Flaenau Gwent.

	Niferoedd data CYBLD ar y gofrestr Ionawr 2023							
Grŵp Blwyddyn	7	8	9	10	11	12	13	14
Ysgol Gwynllyw	134	135	120	135	126	38	34	1
Disgyblion o Flaenau Gwent	34	27	17	29	27	6	7	0

- Mae'r nifer o ddisgyblion CA4 sydd wedi cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg fel iaith Gyntaf yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn awr yn 27 allan o grŵp blwyddyn o 126.
- Mae'r nifer o ddisgyblion CA5 sydd wedi cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg fel iaith Gyntaf yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn awr yn 13.

Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Saesneg Blaenau Gwent

- Caiff CA3 TGAU Cymraeg (fel ail iaith) ei gynnig ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ym Mlaenau Gwent (disgyblion blwyddyn 9), sef 96% 618/645
- Mae 8 dysgwr yn CA3 heb gofrestru gan fynychu ysgolion arbennig
- Mae nifer y disgyblion CA4 a gofrestrodd ar gyfer TGAU Cymraeg fel ail iaith o fewn Blaenau Gwent yn awr yn 98% 557/565
- Mae 27 dysgwr yn CA4 heb gofrestru gan fynychu ysgolion arbennig

	Carfan	Uwchradd
	7701	3220
Disgyblion a ddysgir heb fod yn gyfrwng Cymraeg	7527	3220
Disgyblion yn astudio Cymraeg fel ail iaith	7355	3110
Disgwyllion mewn ysgolion arbennig heb fod yn astudio Cymraeg	170	108
Disgyblion a addysgir mewn ysgol Gymraeg	174	0
Datgymhwys	2	2

- Mae 7 o ddisgyblion o Flaenau Gwent wedi cofrestru ar gyfer lefel A ym Mlwyddyn 13 Ysgol Gyfun Gwynllyw.
- Coleg Gwent sy'n darparu addysg ôl-16 ym Mlaenau Gwent, ac mae ganddynt 7 disgybl yn astudio Cymraeg Safon Uwch ar hyn o bryd.
- Ni chafodd E-ysgol ei hymestyn yn yr ardal hyd yma ond bydd yn flaenoriaeth yn y blaen-olwg cerrig milltir/rhaglen waith i'w chyflwyno.

CRYNODEB DEILLIANT

- Mae disgyblion Blaenau Gwent wedi manteisio wrth i'r meysydd pwnc a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw gynyddu gan 6 pwnc arall ar gyfer disgyblion eleni.
- Ym mlwyddyn academaidd 2022/23 cynigiodd Ysgol Gyfun Gwynllyw 29 ddewis maes pwnc ar CA4, a gododd o ddata llinell sylfaen o 25.

- Ym mlwyddyn academiaidd 2022/23 cynigiodd Ysgol Gyfun Gwynllyw 32 dewis maes pwnc ar CA5 i ddisgyblion, sydd wedi codi o'r data llinell sylfaen o 30.
- Mae Blaenau Gwent yn cynnig addysg ôl-16 drwy Goleg Gwent ar gyfer disgyblion gyda'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Mae 7 disgybl yn astudio'r Cymraeg ar Safon Uwch ar hyn o bryd.
- Caiff ein darpariaeth Safon Uwch cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion Blaenau Gwent ei addysgu yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn Nhorfaen, Fel y nodwyd uchod, mae 6 disgybl ar hyn o bryd.
- Caiff E-ysgol ei hymestyn ym mlwyddyn academiaidd 2023/24.
- Bu Fforwm Addysg Gymraeg ac is-grŵp Cyfathrebu Blaenau Gwent yn rhagweithiol wrth hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog:
 - Cynhaliwyd adolygiad o dudalen gwefan Bod yn Ddwyieithog yn nhymor yr hydref 2022. Cafodd hyn ei adolygu yn ddilynol, gan gynnwys pytiau fideo.
 - Gosodwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo trochi a'r cyfle i blant cyfrwng Saesneg i drosglwyddo i addysg Gymraeg.
 - Cafodd nod llyfrau ei greu ym mis Rhagfyr 2022 – roedd un ochr yn nodi manteision bod yn ddwyieithog gyda chod QR i fynd ag unigolion i'r dudalen gwefan a'r ochr arall yn rhoi sylw i ddatblygu'r ysgol newydd yn Chartist Way, Tredegar.
- Bu Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn rhagweithiol wrth gysylltu gyda rhieni i hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae staff wedi ymweld â grwpiau Ti a Fi a lleoliadau gofal plant cyfrwng Saesneg, ynghyd â chynnig sesiwn galw heibio yn Nhŷ Bedwellte ar gyfer darpar rieni meithrin a dosbarth derbyn sy'n ystyried gwneud cais i'w plant fynd i Ysgol Gymraeg Tredegar (yr ysgol egin newydd dan drefniadau llywodraethiant Ysgol Gymraeg Bro Helyg) ar gyfer mis Medi 2023.
- Mae'r Mudiad Meithrin a'r Fenter Iaith wedi bod yn gweithio gyda blynyddoedd cynnar i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer addysg Gymraeg.
- Cymerodd 70 o ddisgyblion Blaenau Gwent ran yn yr Eisteddfod yn 2023.
- Mae 7 ysgol (257 disgybl) o Flaenau Gwent wedi mynychu darpariaeth yng Nghanolfan Gweithgaredd yr Urdd:
 - Ysgol Gymraeg Bro Helyg (40 disgybl)
 - Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr (50 disgybl)
 - Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Santes Fair (33 disgybl)
 - Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff (20 disgybl)
 - Ysgol Gynradd Glyncoed (30 disgybl)
 - Ysgol Gynradd Rhiw Beaufort (30 disgybl)
 - Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair (54 disgybl).
- Mae Mudiad Meithrin yn darparu'r cwrs CCLD drwy'r Cynllun Ysgolion Mudiad Meithrin yn Ysgol Gwynllyw. Mae 3 Cylch Meithrin yn dilyn Croesi'r Bont. Nod y cynllun yw hwyluso pontio i addysg Gymraeg ar gyfer plant nad yw eu teuluoedd yn siarad Cymraeg yn ogystal â staff cymorth sy'n dysgu Cymraeg. Mae Mudiad Meithrin wedi penodi prif swyddog rhanbarthol ar gyfer eu cyrsiau Cam wrth Gam. Gobeithir y bydd hyn yn sicrhau twf ymhlith y rhai sy'n dilyn cyrsiau gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly yn hybu'r gweithlu Cymreg yn y rhanbarth. Camau Nesaf: Mudiad Meithrin i hyrwyddo a recriwtio i'w gyrsiau o fewn ysgolion, lleoliadau gofal plant a'r gymuned yn

ehangach.

- Cynhaliwyd gwaith mapio fel rhan o'r Fforwm Addysg Gymraeg a'r grŵp trafodaethau ysgol uwchradd i ganfod lefel yr angen ar gyfer dysgwyr yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd o 2029 ymlaen. Caiff hyn ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i lywio trafodaethau ar ddatblygu lleoedd ysgolion cynradd ac uwchradd ymhellach.

GWEITHREDU A MONITRO

Dangosir monitro blwyddyn gyntaf cynllun 10-mllynedd WESP ar ffurflen monitro Blaenau Gwent. Caiff y data ei gasglu ddwywaith y flwyddyn.

Allan o'r 17 cam gweithredu a ddynodwyd yn y WESP, cafodd un ei orffen, mae 14 yn mynd rhagddynt a day geb ey decgray,# mae cyfanswm o 15 lefel ar waith gyda

Yn ogystal â'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg sy'n cwrdd unwaith y tymor, cafodd gwahanol is-grwpiau eu sefydlu gydag arweinwyr allweddol yn grwpio deilliannau fel isod:

Deilliant 1 a 2	Deilliant 3 a 4	Deilliant 5	Deilliant 6
Mae Deilliant 7 yn nodwedd allweddol yn y 4 grŵp.			

Mae gan Flaenau Gwent hefyd is-grŵp Cyfathrebu sy'n cwrdd bob yn ail fis, ac mae grŵp cynllunio lleoedd ysgol y Fforwm Addysg Gymraeg rhanbarthol hefyd yn cwrdd bob tymor. Ymhellach mae Blaenau Gwent hefyd wedi arwain ar grŵp trafod gydag awdurdodau cyfagos yng nghyswllt cynllunio darpariaeth uwchradd.

RISGIAU LEFEL DEILLIANT

- Cyfyngiadau ariannol, gwleidyddol a chorfforaethol yn nhermau datblygu mwy o brosiectau ad-drefnu ysgolion a'r galw cynyddol am addysg Gymraeg.

SICRWYDD / GWEITHREDOEDD LLINIARU RISGIAU

- Mae'r gwaith o ddadansoddi'r angen yn cael ei wneud ar hyn o bryd i lywio cynllunio tymor hirach ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r galw cysylltiedig ar gyfer lleoliadau addysg cyfrwng Cymraeg.

Deilliant 5

Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

GWYBODAETH ALLWEDDOL

Diweddariad ar gynnydd

- Dyfarniad Siarter Iaith Gymraeg
Ysgol gynradd Gymraeg: 100% Arian – Ysgol Gymraeg Bro Helyg
- Nifer yr ysgolion cynradd a dderbyniodd Ddyfarniad Cymraeg Campus
Aur: 0, Arian: 1 (ysgol pob oed), Efydd: 15 (ysgol pob oed)
- Mae cyfanswm o 23 ysgol ym Mlaenau Gwent. Mae'r holl ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a'r ysgol Gymraeg yn rhan o'r Siarter Iaith a Cymraeg Campus.
 - 20 ysgol cyfrwng Saesneg (86.80%)
 - 1 ysgol Gymraeg (4.4%); a
 - 2 ysgol arbennig (8.8%)
- Mae 1 ysgol uwchradd, 1 ysgol sefydliadol a 2 ysgol pob oed, pob un yn gweithredu'r Siarter Iaith. Enillodd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr y dyfarniad Arian yn 2023.

CRYNODEB DEILLIANT

- Bu'r cynnydd yn arafach na'r disgwyl ar gyfer y Dyfarniad Siarter Iaith a Cymraeg Campus gan mai ychydig iawn o Gymraeg a ddysgwyd mewn ysgolion, yn arbennig ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, yng nghyfnod y pandemig.
- Bu newid yn staff Gwasanaeth Ieuentid Blaenau Gwent yn ddiweddar. Gadawodd swyddog allweddol gwasanaeth ieuentid Blaenau Gwent yr awdurdod ar ddiwedd Chwefror 2023 a chafodd ei olynu gan Kristian Gay ganol mis Mai 2023. Bydd Kristian Gay yn awr yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm Addysg Gymraeg ac ef yw'r swyddog allweddol ar gyfer gwybodaeth gan y Gwasanaeth Ieuentid.
- Drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Urdd, mae Gwasanaeth Ieuentid Blaenau Gwent wedi cyflogi gweithiwr ieuentid. Kristian Gay fydd rheolwr llinell gweithiwr ieuentid yr Urdd ynghyd ag Angharad Wyn Jones (Urdd).
- Gosodwyd y targedau dilynol ar gyfer gweithiwr ieuentid yr Urdd:
 - Bydd gweithiwr yr Urdd yn gweithio gyda Choleg Gwent i ddechrau i ddynodi siaradwyr Cymraeg o fewn y coleg a chynllunio rhaglen o ddigwyddiadau gyda myfyrwyr.
 - Aildechrau'r Fforwm gyda Menter Iaith BG.T.M – sicrhau bod pobl ifanc o Flaenau Gwent ar y Fforwm - cwrdd gyda'r Fforwm unwaith y mis.
 - Datblygu Clwb Wythnosol mewn 3 ysgol gyfun cyfrwng Saesneg.
 - Gwirfoddolwyr ifanc: Cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc yn Ysgol Gyfun Gwynllyw.
 - Darpariaeth Gwyliau: 1 x Gweithgareddau Hanner Tymor – Chwefror/Mai a Hydref, 2 x Gweithgareddau – Pasg, 4 x Gweithgareddau- Haf.
 - Gwaith pontio. Gwaith gyda Blwyddyn 6 ym Mro Helyg.

Cynhaliodd Gwasanaeth Ieuentid Blaenau Gwent ymgynghoriad gyda phobl ifanc

yn ddiweddar. Fel rhan o'r adolygiad hwnnw dywedodd pobl ifanc eu bod yn dymuno gweld mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau Cymraeg. Gweler yr adborth isod.

Pan ofynnwyd i bobl ifanc pe byddent yn mynychu gweithgareddau pe byddent yn Gymraeg neu'n ddwyieithog

- Dywedodd 41 o bobl ifanc y byddent
- Dywedodd 204 Na
- Dywedodd 52 Efallai

Pan ofynnwyd iddynt faint o Gymraeg y gallant ei siarad a'i ddeall

- Dim 103
- Ychydig 127
- Eithaf tipyn 19
- Rhugl 4
- Yn arfer siarad llawer 2
- Yn dysgu'r iaith yn yr ysgol 42

Fyddech chi'n fodlon teithio tu allan i'ch ardal i fynychu gweithgareddau Cymraeg?

- Byddwn 26
- Na 29
- Efallai 38

- Dim ond un ysgol – Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr - a enillodd y dyfarniad Arian yn 2023. Mae pob ysgol ar y daith i gael y dyfarniad. Cynhelir gwerthusiad i asesu'r effaith gydag ysgolion yn y flwyddyn academaidd nesaf 2023/24.
- Mae pob clwstwr wedi derbyn cyllid i benodi arweinydd clwstwr Cymraeg strategol. Gwahoddir yr arweinwyr i rwydwaith rhanbarthol EAS bob tymor ar gyfer arweinwyr clystyrau Cymraeg strategol i dderbyn a lledaenu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfleoedd dysgu proffesiynol, cyngor a chymorth i ddatblygu a monitro cynllun gweithredu clwstwr pwrpasol a rhannu arfer gorau. Mae cynnydd clystyrau yn amrywiol.
- Mae cynrychiolaeth o'r Gwasanaeth Ieuentid, yr Urdd a'r Fenter Iaith ar Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent.

GWEITHREDU A MONITRO

Dangosir monitro blwyddyn gyntaf cynllun 1-mlynedd WESP ar ffurflen monitro Blaenau Gwent. Caiff y data ei gasglu ddwywaith y flwyddyn.

Allan o'r camau gweithredu a ddynodwyd yn y WESP mae cyfanswm o 26 lefel deilliant. Cafodd 5 ohonynt eu cwblhau, mae 17 yn mynd rhagddynt ac nid yw gwaith wedi dechrau ar 4.

Yn ogystal â'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg sy'n cwrdd unwaith y tymor, cafodd gwahanol is-grwpiau eu sefydlu gydag arweinwyr allweddol yn grwpio deilliannau fel isod:

Deilliant 1 a 2	Deilliant 3 a 4	Deilliant 5	Deilliant 6
Mae Deilliant 7 yn nodwedd allweddol yn y 4 grŵp.			

Mae gan Flaenau Gwent hefyd is-grŵp Cyfathrebu sy'n cwrdd bob yn ail fis, ac mae grŵp cynllunio lleoedd ysgol y Fforwm Addysg Gymraeg rhanbarthol hefyd yn cwrdd bob tymor. Ymhellach mae Blaenau Gwent hefyd wedi arwain ar grŵp trafod gydag awdurdodau cyfagos yng nghyswllt cynllunio darpariaeth uwchradd.

RISGIAU

- Nid yw nifer o ysgolion yn symud ymlaen ar y continwwm Siarter laith.

SICRWYDD / GWEITHREDOEDD LLINIARU RISGIAU

- Cynhelir asesiad effaith ar gynnydd y Siarter laith ar draws pob ysgol.
- Bydd yr Adran Addysg ac EAS yn cefnogi'r 5 ysgol nad ydynt wedi cwblhau eu dyfarniad Efydd dros y 2 flynedd nesaf ac yn cefnogi 4 o'r ysgolion cynradd/campws cyfrwng Saesneg sydd eisoes wedi ennill dyfarniad efydd i fynd ati i ennill eu dyfarniad arian.

Deilliant 6

Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

- Dengys data CYBLD (Ionawr 2023) , allan o boblogaeth o 287 yn cynnwys disgyblion Meithrin, fod 34 gydag anghenion ADY/AAA, cyfanswm o 11% o'r boblogaeth ysgol. Gall y ffigurau hyn gael eu rhannu ymhellach gyda 12 (4.2%) wedi eu dynodi fel Gweithredu gan yr Ysgol a 22 (7.7%) fel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.
- Dynododd archwiliad mwy manwl ym mis Rhagfyr 2022 o anghenion AAA ac ADY disgyblion cyfrwng Cymraeg fod angen darpariaeth yn y Gymraeg, yn arbennig ar gyfer dysgwyr gyda ASD.
- Mae archwiliad o sgiliau yn y Gymraeg ym mis Rhagfyr 2022 o staff Awdurdod Lleol yn cefnogi dysgwyr gyda ADY wedi dynodi un Seicolegydd Addysgol ac un aelod o'r Gwasanaeth Ymarfer Cynhwysol a all weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

CRYNODEB DEILLIANT

- Grant cyfalaf i adeiladu estyniad newydd ar gyfer canolfan adnoddau lawn – mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn parhau ar restr aros Llywodraeth Cymru am fwy o gyllid. Fodd bynnag, yn gynnar yn 2023, ymgynghorodd y Cyngor ar wella darpariaeth canolfannau adnoddau ADY ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae cam 1 y cynnig yn cynnwys canolfan fach ar gyfer darpariaeth Gymraeg. Mae'r ymgynghoriad ar y cam hysbysiad statudol ar hyn o bryd a ddaeth i ben ar 26 Gorffennaf 2023 gyda phenderfyniad yn cael ei wneud ar 1 Medi 2023 ar gyfer gweithredu darpariaeth Ysgol Gymraeg Bro Helyg ym mis Medi 2025 ar gyfer 10-15 disgybl. Wrth i addysg Gymraeg gynyddu gyda'r ysgol egin, bydd angen

ehangu hyn, fel rhan o grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru os dyfernir hynny.

- Cynhelir cyfarfod Blynyddoedd Cynnar ysgolion arbennig bob tymor wrth i blant cyn-ysgol bontio i Fro Helyg. Cynigir nosweithiau agored i rieni newydd.
- Parhaus gydag adnoddau/proffion Cymraeg ar gyfer dysgwyr SPLD ac yn y blaen. Caiff pob ymyriad yn yr ysgol eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae Dr Laura Craven/Sara Thomas-Gough wedi cysylltu gyda rhai disgyblion blynyddoedd cynnar cyn iddynt gyrraedd dosbarth meithrin. Darparwyd cyllid blynyddoedd cynnar i rai.
- Cynigir Saesneg a Chymraeg fel opsiynau ym mhob cyfarfod PCP/cyfarfodydd rhieni gyda Gwasanaethau Cymdeithasol a phob aelod arall o staff.

GWEITHREDU A MONITRO

Dangosir monitro blwyddyn gyntaf cynllun 1-mlynedd WESP ar ffurflen monitro Blaenau Gwent. Caiff y data ei gasglu ddwywaith y flwyddyn.

Allan o'r 19 cam gweithredu a ddynodwyd yn y WESP cafodd cyfanswm o 5 deiliant eu cwblhau, mae 14 yn mynd rhagddynt ac nid oes 0 heb ddechrau.

Yn ogystal â'r Fforwm Addysg Gymraeg sy'n cwrdd bob tymor, cafodd ychydig o is-grwpiau eu sefydlu gydag arweinwyr allweddol yn grwpio deilliannau ynghyd fel sy'n dilyn:

Deiliant 1 a 2	Deiliant 3 a 4	Deiliant 5	Deiliant 6
Mae Deiliant 7 yn nodwedd allweddol yn y 4 grŵp.			

Mae gan Flaenau Gwent hefyd is-grŵp Cyfathrebu sy'n cwrdd bob yn ail fis, ac mae grŵp cynllunio lleoedd ysgol y Fforwm Addysg Gymraeg rhanbarthol hefyd yn cwrdd bob tymor. Ymhellach mae Blaenau Gwent hefyd wedi arwain ar grŵp trafod gydag awdurdodau cyfagos yng nghyswllt cynllunio darpariaeth uwchradd.

RISGIAU LEFEL DEILLIANT

Mae angen i ni gynyddu nifer y staff a all weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac sydd â phrofiad o weithio gyda disgyblion gydag ASD ac Anghenion Dysgu Ychwanegol eraill i gefnogi disgyblion yn y ganolfan adnoddau newydd.

Mae angen datblygu cynllun clir i sicrhau darpariaeth effeithiol yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ADY wrth i ddisgyblion bontio o CA2 i CA3.

SICRWYDD / GWEITHREDOEDD LLINIARU RISGIAU

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori gyda'r Cyngor ar hyn o bryd am strwythurau cyllid i sicrhau y gellir sefydlu a staffio y ddarpariaeth, ac o amgylch parhad y ddarpariaeth.

Deilliant 7

Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

- Dengys canlyniadau cyfrifiad Gweithlu Ysgolion ar gyfer Tachwedd 2022 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023 fod Blaenau Gwent yn gyffredinol yn y ffigurau canran isaf ar draws Cymru.
 - Mae'r gyfran o athrawon gyda sgiliau Cymraeg ar lefel canolradd neu uwch yn seiliedig ar y fframwaith cymhwysedd yn y Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg yn y categori 0-19.9%.
 - Mae'r gyfran o staff cymorth gyda sgiliau yn y Gymraeg ar lefelau canolradd, uwch a hyfedredd yn seiliedig ar y fframwaith cymhwysedd yn y Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg yn y categori 0-19.9%.

Mae'r nifer o leoedd sydd ar gael drwy EAS i ddilyn cwrs sabothol i wella eu Cymraeg yn 14; caiff tua 3 lle eu cynnig i staff Blaenau Gwent. Ni fydd yr holl staff yn cael lle ar y cwrs.

CRYNODEB DEILLIANT

Ysgolion

- Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg wedi penodi i'r swyddi dilynol yn 2022/23:
 - Athro Trochi ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Helyg
 - Pennaeth Campws ar gyfer Ysgol Gymraeg Tredegar
 - Swydd Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch ar gyfer Ysgol Gymraeg Tredegar
 - Swydd Cynorthwydd Addysgu ar gyfer Ysgol Gymraeg Tredegar
- Ar gyfer mis Medi 2024 bydd angen i Ysgol Gymraeg Tredegar, dan ymbarél Ysgol Gymraeg Bro Helyg, recriwtio staff pellach fel sy'n dilyn:
 - 1 Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch;
 - 1 Cynorthwydd Addysgu Lefel 3
 - 1 Cynorthwydd Addysgu Lefel 2.
- Ymhellach, gyda gweithredu canolfan adnoddau ADY yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg (yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ymgynghoriad), yn seiliedig ar 6 plentyn, y gofyniad staffio fydd:
 - 1 athro/athrawes
 - 1 Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch
 - 1 Cynorthwydd Addysgu Lefel 3Mae gan Blaenau Gwent staff eisoes i gefnogi darpariaeth gwasanaeth ADY o fewn tîm cynhwysiant y Cyngor.

Coleg Gwent

- Mae gan Goleg Gwent **35** o staff ar gynllun Cymraeg Gwaith 2022/23 eleni gyda **40** eisoes wedi cofrestru ar gyfer mis Medi 2023/24.
- Mae Coleg Gwent yn parhau i ddefnyddio Byiaith ar gyfer hyfforddiant a mentora staff.

- Mae Coleg Gwent yn cynnig TAR am ddim i staff newydd sy'n medru'r Gymraeg ac yn gweithio yn y meysydd blaenoriaeth.
- Bu cynnydd da hyd yma drwy gynllun Cymraeg Gwaith a noddi TAR.

Y Cyngor/Tîm Polisi

- Dechreuodd swydd Swyddog y Gymraeg Kickstart dan Hyfforddiant ar 11/11/21, a gaiff bellach ei gyflogi'n uniongyrchol drwy'r Cyngor fel Swyddog Cymorth y Gymraeg o fewn y tîm Polisi a Phartneriaethau ar gontract cyfnod penodol tan fis Mawrth 2024.
- Mae monitro cyffredinol ar gydymffurfiaeth y Cyngor gyda Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a ddaw dan y Tîm Polisi a Phartneriaethau. Maent hefyd yn diweddarau'r canllawiau ar y Gymraeg sydd ar gael i staff drwy'r fewnwyd. Caiff unrhyw wybodaeth newydd ar ganllawiau a hysbysiadau atgoffa cyffredinol am Safonau eu hanfon yn rheolaidd i'r holl staff drwy'r Tîm Cyfathrebu.
- Mae Datblygu Sefydliadol yn cydweithio gyda'r Tîm Polisi a Phartneriaethau i sicrhau fod prosesau staff yn eu lle i ystyried y Gymraeg ymysg staff yn cynnwys hygyrchedd i ddatblygu sgiliau er mwyn darparu gwasanaeth yn y Gymraeg sy'n cyflawni dyletswyddau'r awdurdod dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Mae staff yn derbyn cyfleoedd hyrwyddo hyfforddiant y Gymraeg yn rheolaidd drwy e-bost a chânt eu cynnwys o fewn briffiadau rheolwyr. Mae sleidiau hyfforddiant ar gael ar y rhyngwyd ar gyfer yr holl staff hydd hefyd yn hyrwyddo mwy o adnoddau hyfforddiant a diwygiadau i'r polisi hyfforddiant a sefydlu.
- Mae prosesau yn mynd rhagddynt fel rhan o Gynllun Gweithredu Ymchwilio CS092. Mae'r newidiadau hyn yn anelu bod yn fwy rhagweithiol wrth annog a threfnu hyfforddiant yn y Gymraeg ar gyfer staff presennol a newydd.
- Mae'r grŵp creiddiol sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol yn cwrdd bob 6 wythnos i drin unrhyw gamau gweithredu yn y categori Oren neu Goch. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys staff o'r timau dilynol: Polisi a Phartneriaethau, Datblygu Sefydliadol, Cyfathrebu a meysydd allweddol wynebu cwsmeriaid.
- Cafodd yr Asesiad Effaith Integredig ei ddiweddarau yn Gymraeg a Saesneg. Cafodd staff eu hysbysu a chaiff ei ddefnyddio pan fo angen.
- Mae'r Archwiliad Mewnol/Cynllun Gweithredu Ymchwiliad CS092 yn trin nifer o safonau darpariaeth gwasanaeth yn arbennig y rhai'n ymwneud â gweithdrefn ffôn, staff yn y ganolfan cyswllt sy'n wynebu cwsmeriaid, hybiau cymunedol a llinellau ffôn prysur ac yn mynychu sesiynau hyfforddiant wythnosol dan arweiniad tiwtor a deilwrwyd i ofynion eu swyddi.
- Ailsefydlwyd Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent yn y 12 mis diwethaf. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys mudiadau ac asiantaethau Cymraeg lleol a meysydd gwasanaeth Cyngor Blaenau Gwent y mae eu gwaith yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Cynhelir cyfarfodydd yn Gymraeg gyda chyfieithiad ar y pryd drwy Teams.
- Mae Cyngor Blaenau Gwent yn cydweithio gyda nifer o rwydweithiau i rannu arfer gorau ac yn ceisio cefnogaeth i drin anawsterau cyffredin. Mae grwpiau megis Grŵp Deddf, sy'n cynnwys Swyddogion y Gymraeg awdurdodau lleol cyfagos, grŵp Rhwydiaith sy'n cynnwys gweithwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol sydd yn aml yn cael siaradwyr gwadd i'w diweddarau ar ddarnau gwaith posibl, y Fforwm Addysg Gymraeg sy'n rhoi diweddariadau ac yn gofyn am adborth ar ddatblygiadau o fewn y sector addysg cyfrwng Cymraeg.

- O ran swyddogion yr awdurdod lleol, mae'r Tîm Polisi a Phartneriaethau yn monitro a dadansoddi data yn ymwneud ag athrawon sy'n addysgu yn y Gymraeg yn unol â'n Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a deilliannau'r Cynllun Cymraeg mewn Addysg.
- Caiff sgiliau staff yn y Gymraeg eu cofnodi ar iTrent a chaiff y data ei baratoi'n flynyddol ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg. Caiff nodiadau atgoffa eu hanfon bob chwarter at yr holl staff i gadw'r wybodaeth hon yn gyfoes. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i ddynodi meysydd gwasanaeth gyda niferoedd is o staff gyda gallu yn y Gymraeg ac yn rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo/trefniadau hyfforddiant ac yn trin yr anghenion ar gyfer y maes gwaith hwn e.e. capasiti staff sy'n wynebu cwsmeriaid er mwyn darparu gwasanaeth ansawdd uchel yn y Gymraeg.
- Mae'r tîm Polisi a Phartneriaethau yn cefnogi amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan adolygu eu cynnydd fel rhan o fonitro Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg gyda dangosyddion ar gyfer camau gweithredu niferus sy'n uniongyrchol gysylltiedig â datblygiadau o fewn y sector addysg. Mae cynrychiolwyr o Polisi a Phartneriaethau yn mynychu'r Fforwm Addysg Gymraeg ac yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am addysg o fewn Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent a ailsefydlwyd yn ddiweddar.

EAS

- Hyrwyddo arolwg gweithlu addysg SWAC drwy fideo hyrwyddo. Caiff y fideo ei hyrwyddo drwy rwydwaith strategol Penaethiaid/Dirprwy Benaethiaid ysgolion.
- Rhwydwaith arweinwyr clwstwr Cymraeg a rhwydwaith cydlynwyr y Gymraeg.
- EAS yn cyflwyno cyfres o gyfleoedd dysgu iaith ar gyfer staff (dechreuwyr – lefel mynediad a sylfaen).
- EAS yn hyrwyddo darpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Methodoleg addysgu Cymraeg a chymorth dylunio cwricwlwm a dysgu proffesiynol. Cynnig PL ar gyfer 23-24 wedi ei rannu gydag ysgolion.
- Darpariaeth mireinio iaith EAS ar gael i staff mewn ysgolion Cymraeg.
- Staff EAS: Adnoddau a chymorth proffesiynol ar y Gymraeg.
- ER – Mae pob clwstwr wedi derbyn cyllid rhanbarthol i benodi arweinydd clwstwr Cymraeg strategol. Gwahoddir yr arweinwyr i rwydwaith EAS rhanbarthol bob tymor i dderbyn a lledaenu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfleoedd dysgu proffesiynol, cyngor a chymorth i ddatblygu a monitro cynllun gweithredu clwstwr pwrpasol a rhannu arfer gorau. Mae cynnydd y clwstwr yn amrywiol.
- Mae tîm Dysgu Proffesiynol EAS yn cydweithio gyda phartneriaid Addysg Gychwynnol Athrawon yn cynnwys Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru, a gydag ysgolion y rhanbarth i gefnogi Addysg Gychwynnol Athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Prosiect meithrin gallu 23-24 EAS: cymerodd Bro Helyg ran gyda hyrwyddo a recriwtio i brosiect Blwyddyn Fwlch rhanbarthol ar gyfer rhai â diddordeb mewn cael profiad gwaith mewn ysgol Gymraeg yn ystod eu blwyddyn fwlch neu symud i weithio yn y sector addysg fel Cynorthwydd Addysgu. Mae'r recriwtio yn mynd rhagddo.
- Gallai hyfforddiant yn y Gymraeg ategu hyn ar gyfer y rhieni hynny gydag uchelgais i ymgymryd â hyfforddiant gofal plant neu chwarae.
- Mae arweinydd strategol EAS dros y Gymraeg yn cydlynu gyda'r arweinwyr strategol cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar ddatblygu cynnig hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer llywodraethwyr.

Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

- Mae pedwar aelod o'r tîm Blynyddoedd Cynnar, Gofal a Phlant a Chwarae wedi cymryd rhan mewn dysgu Cymraeg dros y 2 flynedd ddiwethaf.
- Cafodd dysgu Cymraeg ei hyrwyddo yn y sector gofal plant a chwarae drwy bartneriaid Cwlwm yn mynychu cyfarfodydd rhwydwaith lleol i amlinellu cyfrifoldebau yng nghyswllt y cynnig ar y Gymraeg ac wrth hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu'r Cymraeg. Caiff dysgu'r Gymraeg hefyd ei hyrwyddo ar y rhaglen hyfforddiant flynyddol ar gyfer y gweithlu gofal plant a chwarae fel rhan o'u cynnig dysgu proffesiynol. Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector gofal plant yn nodwedd o ymweliadau sicrwydd ansawdd gan staff awdurdodau lleol i leoliadau.
- Fel rhan o Gynllun Cyflenwi Gwasanaeth Craidd Dechrau'n Deg ar gyfer 2023-24 mae cynllunio i dîm staff Dechrau'n Deg yr awdurdod lleol arwain y ffordd yn nhermau cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg y sector gofal plant. Mae pob rheolwr tîm wedi cytuno i gofrestru ar gyfer dysgu Cymraeg ac mae cyfleoedd ar gyfer cyrsiau preswyl ar drochi a chyrsiau Cymraeg Gwaith ar gyfer gweithlu Dechrau'n Deg yn cael eu hymchwilio.
- Bydd dau leoliad gofal plant Dechrau'n Deg a gaiff eu rhedeg gan yr awdurdod lleol yn gweithio at ddod yn leoliadau dwyieithog, a gobeithir y bydd hyn yn annog lleoliadau eraill i ddilyn.
 - Mae'r tîm Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn hapus i gymryd rhan wrth hyrwyddo unrhyw ddadansoddiad/archwiliad sgiliau a gynhelir gan Mudiad Meithrin a RhAG. Bydd y rhaglen Dechrau'n Deg yn cynnal gwaith tebyg gyda darparwyr Dechrau'n Deg yn y misoedd nesaf.
 - Cafodd recriwtio ei ddynodi fel mater i'w drin fel rhan o Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 a chafodd cam gweithredu ei greu yn y cynllun gweithredu cysylltiedig i'r awdurdod lleol ystyried pa fesurau y gallai eu eu cymryd i gefnogi'r sector. Cafodd gweithgor ei sefydlu ac ysgrifennwyd drafft gynllun gweithredu a chafodd ei gyflwyno i'r Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ar 29 Mehefin 2023. Mae'n cynnwys ystod o gamau gweithredu gyda'r nod o gefnogi recriwtio.
 - Cafodd hyfforddiant yn y Gymraeg ei hyrwyddo gan y tîm Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a chwarae a hefyd y tîm Dechrau'n Deg yn y 2-3 blynedd ddiwethaf drwy raglen Camau, gydag ymarferwyr yn medru cael mynediad i hyfforddiant lefel mynediad wedi ei ariannu'n llawn gyda ffocws penodol ar y Gymraeg ar gyfer lleoliadau gofal plant.

- Cymerodd Rheolwr Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ran yng ngweithgor Llywodraeth Cymru yn edrych ar faterion gweithlu ym mis Mawrth 2023 a bydd yn parhau i gyfrannu at drafodaethau cenedlaethol.
- Mae cynllun ehangu (2b) diweddaraf Dechrau'n Deg yn dweud bod pob lleoliad gofal plant cyfrwng Saesneg yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol fel rhan o'u hymarfer, er mwyn cyflwyno defnydd y Gymraeg i bob plentyn Dechrau'n Deg gan gefnogi a hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog drwy brosesau cymhwyso a phontio.
- Fel rhan o Gynllun Cyflenwi Gwasanaeth Craidd Dechrau'n Deg 2023-24 byddwn yn gosod y cynlluniau ar gyfer timau Dechrau'n Deg yr awdurdod lleol i arwain y ffordd o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae pob rheolwr tîm wedi cytuno i gofrestru i ddysgu Cymraeg ac rydym wrthi'n ymchwilio cyfleoedd ar gyfer cyrsiau trochi yn y Gymraeg a Cymraeg Gwaith ar gyfer y gweithlu Dechrau'n Deg.
- Bydd y ddau leoliad Dechrau'n Deg a gaiff eu rhedeg gan yr awdurdod lleol yn gweithio tuag at ddod yn lleoliadau dwyieithog a gobeithio y bydd hynny'n annog lleoliadau eraill i ddilyn. Bydd ein Cynnig Dysgu Proffesiynol Gofal Plant ar gyfer 2023/24 ar gyfer pob ymarferydd gofal plant ym Mlaenau Gwent yn cynnwys cyrsiau Cymraeg a sesiynau blasu i annog mwy o ddefnydd achlysurol o'r Gymraeg mewn lleoliadau.
- Dywedodd pob un o'r 32 gwarchodwr plant ym Mlaenau Gwent mai Saesneg yw prif iaith eu gwasanaeth, fodd bynnag cadarnhaodd 9 eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol bob dydd. Fel rhan o gam 2 rydym wedi datblygu manyleb newydd ar gyfer gwarchodwyr plant i annog gwarchodwyr plant i wneud cais i gofrestru fel darparwyr Dechrau'n Deg. Fel rhan o'r fanyleb, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i warchodwyr plant i gymryd rhan yn rhaglen Sicrwydd Ansawdd yr awdurdod lleol sy'n annog defnyddio'r Gymraeg mewn ymarfer dyddiol. Bydd hyn yn parhau i gael ei annog, ei gefnogi a'i ddatblygu wrth symud ymlaen, gyda mwy o bwyslais ar y Gymraeg.
- Yn ychwanegol, mae cynlluniau ehangu cynharach yn nodi y cafodd darpariaeth Ti a Fi newydd ei sefydlu i gefnogi'r defnydd o ofal plant cyfrwng Cymraeg ynghyd â chynlluniau i gynnig cyfleoedd hyfforddi yn y Gymraeg i rieni drwy'r hybiau Dechrau'n Deg. Mae rhieni Dechrau'n Deg eisoes yn cael mynediad i hyfforddiant drwy'r hybiau ac maent wedi dilyn hyfforddiant seicoleg plant a hyfforddiant cynorthwywyr addysgu yn ddiweddar. Gallai cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg ategu hyn ar gyfer y rhieni hynny sydd ag uchelgais i ymgymryd â hyfforddiant gofal plant neu chwarae.

GWEITHREDU A MONITRO

Dangosir monitro blwyddyn gyntaf cynllun 10-mlynedd WESP ar ffurflen monitro Blaenau Gwent. Caiff y data ei gasglu ddwywaith y flwyddyn.

Allan o'r 28 pwynt gweithredu a ddynodwyd yn y WESP cafodd 5 lefel eu cwblhau ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar 23.

Yn ogystal â'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg sy'n cwrdd unwaith y tymor, cafodd gwahanol is-grwpiau eu sefydlu gydag arweinwyr allweddol yn grwpio deilliannau fel isod:

Deilliant 1 a 2	Deilliant 3 a 4	Deilliant 5	Deilliant 6
Mae Deilliant 7 yn nodwedd allweddol yn y 4 grŵp.			
<p>Mae gan Flaenau Gwent hefyd is-grŵp Cyfathrebu sy'n cwrdd bob yn ail fis, ac mae grŵp cynllunio lleoedd ysgol y Fforwm Addysg Gymraeg rhanbarthol hefyd yn cwrdd bob tymor. Ymhellach mae Blaenau Gwent hefyd wedi arwain ar grŵp trafod gydag awdurdodau cyfagos yng nghyswllt cynllunio darpariaeth uwchradd.</p>			
RISGIAU LEFEL DEILLIANT			
<ol style="list-style-type: none"> 1. Recriwtio nifer ddigonol o staff i'r ysgol egin newydd 2. Datblygu'r ddau leoliad gofal plant cyfrwng Gymraeg a'r angen ar gyfer darparwyr gofal plant preifat 3. Datblygu gwarchodwyr plant ar gyfer galw am gyfrwng Gymraeg 			
SICRWYDD / GWEITHREDOEDD LLINIARU RISGIAU			
<ol style="list-style-type: none"> 1. Gwnaed llawer o benodiadau o fewn yr ysgol, fodd bynnag ni wyddom yn iawn lle mae hynny'n gadael yr Ysgol Gymraeg wrth ôl-lenwi swyddi. 2. Bydd y tîm Gofal Plant a Blynnyddoedd Cynnar yn mynd allan i dendr ar gyfer darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol agos a chredant y byddant yn recriwtio'r darparydd cywir i gyflawni ar eu rhan. 3. Mae'r galw am ofal plant yn sefydlog ar hyn o bryd a chynhelir mwy o fapio wrth i'r galw gynyddu. Mae cwmpasu Dechrau'n Deg yn dilyn Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. 			